# Nyrsys Admiral arbenigol ym maes dementia



## Beth yw Nyrs Admiral?

Nyrsys arbenigol ym maes dementia yw Nyrsys Admiral, sy'n cael eu cefnogi a'u datblygu gan Dementia UK. Maent yn cefnogi teuluoedd yr effeithir arnynt gan bob math o ddementia, ar draws pob grŵp oedran, gan gynnwys dementia cynnar (lle mae symptomau'n datblygu cyn 65 oed).

Mae Nyrsys Admiral yn canolbwyntio ar gefnogi'r teulu cyfan, gan gynnwys unrhyw blant neu bobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r person â dementia.

Mae Nyrsys Admiral i gyd yn nyrsys cofrestredig, ac yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol, gan gynnwys:

- Llinell gymorth am ddim Dementia UK (gweler tudalen 4)
- apwyntiadau clinig rhithwir dros y ffôn neu alwad fideo (gweler tudalen 4)
- cymunedau lleol
- ysbytai
- hosbisau
- cartrefi gofal

Mae Nyrsys Admiral yn cynnal sesiynau ar-lein am ddim Dementia UK, 'Dementia: beth nesaf?' – gweler tudalen 4. Maent hefyd yn helpu i greu pob darn o wybodaeth dementia ar ein gwefan: ewch i
**dementiauk.org/information-and-support**

## Sut gall Nyrs Admiral helpu?

Mae Nyrsys Admiral yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol wedi'i deilwra gyda phob agwedd ar ddementia. Maent yn sicrhau bod gan ofalwyr y strategaethau a'r sgiliau y mae eu hangen arnynt i gefnogi'r person sy'n byw gyda dementia, er enghraifft:



- sgiliau a thechnegau cyfathrebu
- cymorth ag atal neu reoli newidiadau mewn ymddygiad
- cyngor ar ddeall a gwneud cais am fudd-daliadau ariannol
- cymorth emosiynol a seicolegol
- cynllunio ar gyfer y dyfodol
- cyfeirio at wasanaethau eraill, megis grwpiau cymorth a gofal seibiant
- dewis gofal a chymorth, a rheoli trosglwyddo i gartref gofal

Gall Nyrsys Admiral helpu teuluoedd i feithrin cysylltiadau â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, a chydlynu'r gwahanol wasanaethau a allai fod yn rhan o gefnogi'r person â dementia.

Yn ogystal, mae Nyrsys Admiral yn cefnogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth am ddementia fel y gallant hwythau hefyd gefnogi'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw yn well.

## Sut i gysylltu â Nyrs Admiral

**Sesiynau ar-lein 'Dementia: beth nesaf?'**
Os ydych chi'n gofalu am rywun â dementia neu'n byw gyda'r cyflwr eich hun, gallwch gofrestru ar gyfer ein sesiynau ar-lein am ddim, 'Dementia: beth nesaf?' Caiff y rhain eu cynnal gan Nyrsys Admiral, ac maent yn ymdrin â phynciau megis mathau o ddementia, symptomau, materion ariannol a chyfreithiol, a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cofrestrwch yn **dementiauk.org/dementia-what-next**

**Llinell Gymorth Dementia UK**
Mae ein Llinell Gymorth genedlaethol yn cael ei rhedeg gan Nyrsys Admiral. Mae'n ddelfrydol os:

- oes angen cefnogaeth ar unwaith arnoch
- hoffech siarad â Nyrs Admiral gyda'r nos neu ar y penwythnos

Mae pob galwad yn rhad ac am ddim, ac yn gyfrinachol.
Ffoniwch: 0800 888 6678
E-bost: **helpline@dementiauk.org**

Oriau agor: Dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-9pm; a dydd Sadwrn, dydd Sul a gwyliau banc 9am-5pm (ac eithrio 25 Rhagfyr).

Gall ein Llinell Gymorth fod yn brysur, felly os na allwch ddod drwodd, gadewch neges llais, a bydd Nyrs Admiral yn dychwelyd eich galwad cyn gynted â phosib.

**Apwyntiadau clinig rhithwir**
Mae ein clinig rhithwir yn cynnig apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw gyda Nyrs Admiral dros y ffôn neu alwad fideo ar Microsoft Teams neu Zoom. Mae apwyntiadau clinig rhithwir yn para 45 munud, ac maent yn ddelfrydol os:

- oes gennych gwestiwn mwy manwl

- hoffech drefnu galwad ar amser sy'n gyfleus i chi, er enghraifft pan all rhywun arall eistedd gyda'r person sydd â dementia
- hoffai aelodau'r teulu neu bobl eraill sy'n gofalu am y person fynychu'r apwyntiad gyda'i gilydd, hyd yn oed os nad ydynt yn agos at ei gilydd yn ddaearyddol

Trefnwch yn **dementiauk.org/book**

**Nyrsys Admiral Ymgynghorol**
Mae gan Nyrsys Admiral Ymgynghorol arbenigedd penodol mewn rhai agweddau ar ddementia. Maent yn cynnig cyngor, cymorth ac addysg arbenigol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr, sydd ag anghenion cymhleth sy'n dod o fewn eu maes arbenigol.

Mae gan Dementia UK Nyrsys Admiral Ymgynghorol ar gyfer:

- Plant a Phobl Ifanc
- Eiddilwch
- Dementia Corff Lewy (mewn cydweithrediad â Chymdeithas Corff Lewy)
- y Gymuned LGBTQ+
- Chwaraeon a Dementia
- Dementia Cynnar

Maent hefyd yn darparu cyngor ac addysg arbenigol i Nyrsys Admiral eraill a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Maent yn llysgenhadon ar gyfer eu maes arbenigol ac yn gwneud ymchwil i lywio a ffurfio gofal dementia.

Os hoffech gefnogaeth Nyrs Admiral Ymgynghorol, cysylltwch â'n Llinell Gymorth am ragor o wybodaeth ac i ddarganfod a ydych yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio.

### Yn eich ardal

Mae gwasanaethau Nyrsys Admiral cymunedol yn helpu teuluoedd ag anghenion cymhleth sy'n ymwneud â dementia. Gellir cynnal apwyntiadau yn eich cartref eich hun neu mewn lleoliad megis meddygfa.

Gall eich meddyg teulu neu weithiwr cymdeithasol ddweud wrthych a oes gwasanaeth Nyrs Admiral yn eich ardal a thrafod a ydych chi neu'ch teulu yn bodloni'r meini prawf atgyfeirio. Gallwch hefyd gysylltu â'r Llinell Gymorth i weld a oes gwasanaeth Nyrs Admiral yn lleol i chi.

### Yn yr ysbyty

Gofynnwch i'r nyrs â gofal yn y ward a oes gwasanaeth Nyrsys Admiral yn yr ysbyty, neu ffoniwch y Llinell Gymorth i gael gwybodaeth.

### Mewn cartref gofal neu hosbis

Bydd rheolwr y cartref gofal/hosbis yn gallu dweud wrthych a oes Nyrs Admiral yn gysylltiedig â'r cartref neu'r hosbis.

## Pam Nyrsys Admiral?

Enwyd ein nyrsys gan deulu Joseph Levy CBE BEM, a sefydlodd Dementia UK er anrhydedd iddo. Roedd gan Joseph ddementia fasgwlaidd, ac fe'i gelwid yn Admiral Joe oherwydd ei hoffter o hwylio.



# Ffynonellau cymorth

Os ydych chi'n gofalu am rywun â dementia neu'n byw gyda'r cyflwr eich hun, gallwch gofrestru ar gyfer ein sesiynau ar-lein am ddim, 'Dementia: beth nesaf?' yn

**dementiauk.org/dementia-what-next**

I siarad â Nyrs Admiral ar ein Llinell Gymorth am ddim, ffoniwch **0800 888 6678** (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am-9pm; dydd Sadwrn a dydd Sul 9am-5pm; bob dydd ac eithrio 25 Rhagfyr) neu e-bostiwch **helpline@dementiauk.org**

Os yw'n well gennych, gallwch drefnu galwad ffôn neu fideo gyda Nyrs Admiral ar amser sy'n gyfleus i chi: ewch i **dementiauk.org/book**

## Adnoddau Dementia UK

### Adnoddau gwybodaeth a chymorth

dementiauk.org/information-and-support

### Taflenni cyngor i'w darllen ar-lein, eu lawrlwytho neu eu harchebu

dementiauk.org/our-leaflets

### Gwybodaeth am ddementia

dementiauk.org/about-dementia

### Gofalu amdanoch chi eich hun fel gofalwr

dementiauk.org/looking-after-yourself-as-a-carer

### Cefnogaeth ynghylch diagnosis

dementiauk.org/specialist-diagnosis-and-support

**I siarad â Nyrs Admiral arbenigol dementia am unrhyw agwedd ar ddementia:**

Ffoniwch ein Llinell Gymorth ar **0800 888 6678** neu e-bostiwch **helpline@dementiauk.org**

Trefnwch apwyntiad rhithwir:
**dementiauk.org/book**

**Mae ein helusen yn dibynnu'n llwyr ar roddion i ariannu ein gwaith sy'n newid bywydau. Os hoffech gyfrannu i'n helpu i gefnogi mwy o deuluoedd:**

- Ffoniwch **0300 365 5500**
- Ewch i **dementiauk.org/donate**
- Sganiwch **y cod QR**

**Diolch.**

Dementia UK
Helping families face dementia

**dementiauk.org** • **info@dementiauk.org**

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024. Dyddiad adolygu: Medi 2027. © Dementia UK 2024

Dementia UK, Llawr 7, One Aldgate, Llundain EC3N 1RE
Mae Dementia UK yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1039404) a'r Alban (SC 047429).